

Buddion Cymdeithasol

Taflen Ffeithiau

Mynd i'r afael â newid hinsawdd

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, bydd gan hydrogen gwyrdd ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i leihau ein hól troed carbon. Mae hyn yn cynnwys defnyddiau fel tanwydd carbon isel ar gyfer trafnidiaeth, gwresogi adeiladau yn ogystal â disodli nwy naturiol o fewn prosesau diwydiannol.

Mae prosiectau hydrogen gwyrdd bellach yn nodwedd mewn llawer o ddinasoedd ar draws y byd ac mae llywodraeth y DU yn bwriadu cynhyrchu 10 gigawat (GW) o hydrogen gwyrdd erbyn 2030.¹

Lleihau allyriadau carbon

Rhagwelir y bydd yr hydrogen a gynhyrchir ar y safle yn cael ei ddefnyddio i bweru cerbydau casglu sbwriel lleol a bysiau. Ar hyn o bryd mae'r cerbydau diesel hyn ymhlith y cerbydau sy'n perfformio waethaf o ran llygredd aer. Gan mai'r unig ollyngiad o gerbydau celloedd tanwydd hydrogen yw dŵr, bydd disodli cerbydau diesel â cherbydau celloedd tanwydd hydrogen yn gwella ansawdd aer yn yr ardal. Mae opsiynau gwyrdd eraill fel cerbydau trydan batri yn llai addas ar gyfer cymwysiadau trwm, yn enwedig mewn ardaloedd bryniog.

Cyfleoedd cyflogaeth lleol

Bydd tua 130 o bobl yn cael eu cyflogi i adeiladu'r cyfleuster, gyda chyfleoedd cadwyn gyflenwi i fusnesau lleol. Yn ychwanegol at hyn, bydd 4/5 o swyddi arbenigol parhaol i gynnal a gweithredu'r cyfleuster.

Catalydd ar gyfer newid

Er bod cynhyrchu a storio hydrogen wedi'i wneud yn y DU ers bron i ganrif, mae'r angen i ddod o hyd i ddewisiadau amgen i danwydd ffosil yn golygu bod hydrogen gwyrdd yn sector twf yn y DU ac yn rhan allweddol o Strategaeth Clwstwr Diwydiannol De Cymru². Mae cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd Hybont yn rhoi'r cyfle i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod yn rhan o'r dyfodol cyffrous hwn. Mae'n bosibl y gallai busnesau lleol ddefnyddio'r hydrogen a gynhyrchir ar y safle at eu dibenion eu hunain. Yn ogystal, gallai busnesau arbenigol sydd angen hydrogen ddatblygu yn yr ardal o ganlyniad.



Diogelwch tanwydd

Bydd cynhyrchu tanwydd yn lleol i'w ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau lleol megis bysiau lleol yn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil sy'n aml yn cael ei fewnforio. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu y gwasanaethau y mae'n eu darparu rhag amhariadau posibl ar gyflenwadau yn y dyfodol a chostau cynyddol tanwydd ffosil.

¹Papur Polisi'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Strategaeth hydrogen y DU (17/08/2021)
<https://www.gov.uk/government/publications/uk-hydrogen-strategy>

²Clwstwr Diwydiannol De Cymru
<https://www.swic.cymru/>



HYGEN

Mae Hygen yn cyflenwi hydrogen carbon isel yn weithredol heddiw, gan weithredu ei gyfleuster Parc Ynni Tyseley yn Birmingham ac yn cymhwyso profiad gwirioneddol â phrofwyd i gefnogi'r trawsnewid ynni. Gydag ystod eang o brosiectau, gan gynnwys cyfleuster Hydrogen Carbon Isel Bradford a gymeradwywyd gan DESNZ, mae Hygen yn anelu at gyflenwi hydrogen carbon isel ar raddfa eang, gan helpu i adeiladu'r seilwaith, cefnogi diwydiant a thrafnidiaeth, a chyfrannu at uchelgeisiau net sero 2050 y DU.

Gallwch weld yr holl daflenni ffeithiau, gwybodaeth gefndirol a chynlluniau ar gyfer y prosiect ar-lein drwy fynd i:

www.hybont.co.uk

